

# Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

## Negeseuon allweddol ar gyfer cynnwys y cyhoedd

### Cynnwys

Cyflwyniad .....	1
Beth ydy ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol? .....	2
Pwy ydy'r cyhoedd? .....	2
Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol? .....	2
Pam cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd? .....	2
Sut allwch chi chwarae rhan? .....	3
Beth ydw i'n ei gael os ydw i'n ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd? .....	3
Beth ydy cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil a sut olwg sydd arnyn nhw? .....	4
Sut ydw i'n mynegi diddordeb mewn cyfle? .....	4
Yn ystod cyfle i gymryd rhan .....	4
Diffiniadau a nodweddion y tri chategori .....	5

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu i aelodau'r gymuned cynnwys y cyhoedd ei defnyddio pan y mae rhywun yn eu holi ynglŷn â sut y mae cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yn digwydd yng Nghymru, neu pan y maen nhw eisïau esbonio'u rôl i aelodau eraill o'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn ymuno â'r gymuned.

Gall ymchwilwyr a'r gymuned ymchwil ehangach hefyd ei defnyddio pan y maen nhw eisïau ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd ynglŷn â chwarae rhan yn eu hymchwil.

*Gan ddiolch o galon i'r gymuned cynnwys y cyhoedd fu'n adolygu ac yn gwneud sylwadau yn ystod gwaith datblygu'r negeseuon allweddol hyn.*

## **Beth ydy ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol?**

- Mae ymchwil yn darparu tystiolaeth sy'n sicrhau bod y triniaethau a'r gofal sy'n cael eu cynnig i ni'n ddiogel ac yn effeithiol
- Heb ymchwil, ni fyddai llawer o'r triniaethau, a'r mathau o ofal rydyn ni'n eu derbyn fel mater o drefn heddiw yn y GIG ac yn ein cymunedau, ar gael
- Mae aelodau'r cyhoedd yn chwarae rôl hanfodol mewn gwneud i ymchwil ddigwydd ledled Cymru trwy gymryd rhan mewn ymchwil mewn rhyw ffordd neu'i gilydd

## **Pwy ydy'r cyhoedd?**

Wrth gyfeirio at y cyhoedd, rydyn ni'n golygu pawb ohonon ni sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft cleifion a gofalwyr.

## **Beth ydy cynnwys y cyhoedd mewn ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol?**

Mae cynnwys y cyhoedd yn golygu pobl yn gweithio gydag ymchwilwyr i gynllunio, rheoli a chyflawni ymchwil yn hytrach na chymryd rhan yn yr ymchwil ei hun. Gall y gwaith cynnwys fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

- helpu i benderfynu pa broblemau yw'r rhai pwysicaf i'w hateb trwy ymchwil
- cyfrannu at ysgrifennu taflenni gwybodaeth i gleifion
- dod yn gyfrannwr cyhoeddus ar grŵp sy'n rhedeg astudiaeth ymchwil
- penderfynu pa astudiaethau ymchwil y dylid eu hariannu
- cynorthwyo â rhannu darganfyddiadau ymchwil
- llywodraethu ymchwil, sef proses i sicrhau ansawdd yr ymchwil ac i ddiogelu hawliau, urddas, diogelwch a llesiant y rheini sy'n cymryd rhan. Gallai hyn fod ar ffurf rheoli ymchwil, neu gynrychiolaeth ar fwrdd.

## **Pam cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd?**

- Ymhlith y manteision i'r rheini sy'n cymryd rhan mae'r cyfle i siapio ymchwil a allai effeithio arnoch chi, eich teulu neu'ch ffrindiau
- Mae defnyddio'ch profiad personol o gyflwr, afiechyd neu wasanaeth yn helpu tîm yr astudiaeth ymchwil i ddeall sut y mae'r profiadau hyn yn effeithio ar bobl mewn bywyd bob dydd
- Mae cyfrannu'ch safbwynt chi yn gallu bod o fudd i ymchwil trwy wneud yn siŵr bod astudiaethau ymchwil yn gofyn y cwestiynau sydd fwyaf perthnasol ac sy'n

debygol o wella triniaeth a gofal

- Mae cyfrannu at ymchwil hefyd yn ffordd wych i gyfarfod â phobl
- Mae'n gallu bod yn gam tuag at ddatblygu gwybodaeth a sgiliau defnyddiol, newydd

## **Sut allwch chi chwarae rhan?**

Gallwch chi ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru trwy:

- Gofrestru ar-lein yn [www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/involvement-form-cy](http://www.ymchwiliiechydagofal.llyw.cymru/involvement-form-cy)
- Neu drwy gysylltu â'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gael cymorth i gofrestru yn:
  - e-bost - [research-involvement@wales.nhs.uk](mailto:research-involvement@wales.nhs.uk)
  - ffôn - 02920 230457

## **Beth ydw i'n ei gael os ydw i'n ymuno â'r gymuned cynnwys y cyhoedd?**

Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru, byddwch chi'n derbyn:

- Bwletin wythnosol sy'n cynnwys cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil y gallwch chi fynegi diddordeb ynddyn nhw.
- Y gallu i fanteisio ar hyfforddiant a chanllawiau ynglŷn ag ymchwil a chynnwys y cyhoedd. Mae enghreifftiau'n cynnwys Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd a chefnogaeth oddi wrth y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd, sef eich prif gyswllt os oes gennych chi unrhyw broblemau neu ymholiadau
- Tâl am dreuliau a chynnig tâl am amser ar gyfer rhai cyfleoedd cynnwys y cyhoedd
- Y gallu i fanteisio ar gyngor ar fudd-daliadau

## Beth ydy cyfleoedd i gymryd rhan mewn ymchwil a sut olwg sydd arnyn nhw?

- Fel rheol, hysbysebion oddi wrth ymchwilwyr neu sefydliadau ymchwil sy'n edrych am aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan mewn prosiect neu bwyllgor ymchwil ydy'r rhain.
- Mae cyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu hysbysebu ar wefan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru dan 'Cyfleoedd ar hyn o bryd' ([www.ymchwiliachydgofal.llyw.cymru/cyfleoedd-ar-hyn-o-bryd](http://www.ymchwiliachydgofal.llyw.cymru/cyfleoedd-ar-hyn-o-bryd)) ac yn y bwletin wythnosol 'Cynnwys pobl o bwys'
- Defnyddir 3 chategori ar gyfer cyfleoedd i gymryd rhan: Glas, Gwyrdd a Choch. Mae'r lliwiau'n eich helpu chi i wybod lefel ofynnol y wybodaeth a'r profiad, yn ogystal â faint o amser y bydd angen i'r aelod o'r cyhoedd ei roi gydol y cyfle cynnwys (gwelwch dudalen 5 isod)

## Sut ydw i'n mynegi diddordeb mewn cyfle?

- Daw dolen ar-lein gyda phob cyfle sy'n cael ei hysbysebu, a byddwch chi'n clicio ar hon i fynegi'ch diddordeb
- I fynegi diddordeb, bydd gofyn ichi ddisgrifio yn eich geiriau eich hun sut rydych chi'n cyfateb i'r gofynion y manylir arnyn nhw yn y cyfle
- Bydd yr ymchwilydd a fydd yn arwain y cyfle'n adolygu pob datganiad o ddiddordeb ac yn dewis y nifer ofynnol o unigolion
- Byddwch chi'n cael gwybod a ydych chi wedi'ch dewis ai peidio ac yna bydd yr ymchwilydd yn cysylltu â'r unigolion llwyddiannus i drafod y camau nesaf

## Yn ystod cyfle i gymryd rhan

- Yr ymchwilydd sy'n arwain y cyfle fydd eich prif gyswllt
- Os ydy'r cyfleoedd i gymryd rhan yn y cyfnod datblygu ymchwil, bydd y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cysylltu â chi i gytuno ar dreuliau a chynigion tâl am amser, ac i reoli'r rhain.
- Os ydy'r cyfleoedd i gymryd rhan gydag astudiaethau ymchwil sydd wedi'u hariannu, bydd y sefydliad ymchwil yn rheoli'r treuliau a'r cynigion tâl am amser.

- Nid oes yn rhaid derbyn cynigion tâl, neu gellir cymryd swm llai.
- Os ydych chi'n pryderu y bydd cymryd rhan yn effeithio ar eich budd-daliadau yna mae yna wasanaeth cyngor ar fudd-daliadau ar gael ichi yn rhad ac am ddim os ydych chi wedi cofrestru â'r gymuned cynnwys y cyhoedd
- Mae'n bosibl yr ystyrir y tâl y byddwch chi'n ei dderbyn yn incwm trethadwy. Eich cyfrifoldeb chi ydy sicrhau bod yr holl fesurau a datganiadau ar gyfer eich amgylchiadau unigol chi yn eu lle (mae cyngor pellach ynglŷn â threth a gynhyrchir o incwm ar gael oddi wrth HMRC: [www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/employment-income-manual/eim71105](http://www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/employment-income-manual/eim71105))
- Mae'n bosibl y bydd angen ichi adrodd ar yr effaith y mae cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd wedi'i chael arnoch chi a'r ymchwil.
- Mae'n bwysig ein bod ni'n ymdrechu i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu a'ch profiad o gymryd rhan yn barhaus. Bydd y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn gofyn am adborth bob chwe mis oddi wrthy ch chi â'r ymchwilydd ynglŷn â'ch profiad o gymryd rhan.

## Diffiniadau a nodweddion y tri chategori

### Categori Glas

#### Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd

- Gwybodaeth trwy brofiad
- Nid oes galw am unrhyw brofiad o fod yn rhan o gynnwys y cyhoedd
- Ymrwymiad amser cyfyngedig ac nid oes galw em deithio neu fynychu'n bersonol
- Nid oes yn rhaid mynd i gostau

#### Enghreifftiau

- Arolygon lle mae galw am niferoedd mawr
- Cyfweliadau byr dros y ffôn
- Ymchwilydd yn mynychu digwyddiadau cymunedol i gasglu barn

## Gwobr

- Gwerthfawrogiad o'r cyfraniad
- Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth
- Dim cynnig tâl

## Categori Gwyrdd

### Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd

- Gwybodaeth trwy brofiad
- Tystiolaeth o rywfaint o brofiad a dealltwriaeth o fod yn rhan o gynnwys y cyhoedd
- Hyfforddiant sylfaenol / cyflwyniad i gynnwys y cyhoedd
- Gallu ymrwymo'u hamser
- Mae galw am ymrwymiad i gyfrinachedd, 'Cytundeb Cyfle' a 'Chod Ymddygiad' neu 'Siarter' o bosibl
- Mynychu cyfarfodydd, skype neu delegynhadledd
- Gallai gynnwys ymchwilwyr yn trefnu lleoliad ac amser sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall

### Enghreiffiau

- Cynnwys y cyhoedd mewn datblygu ymchwil (e.e.: panel cynghori neu gymhorthfa, grŵp datblygu ymchwil)
- Gwneud sylwadau ar ddeunyddiau ar gyfer y cyhoedd, ar y ffordd o gynnal astudiaeth (e.e.: Rheoli Treial / Grwpiau Llywio ac ati)
- Lledaenu canlyniadau i roi persbectif y defnyddiwr / y cyhoedd
- I gynnwys paneli cynnwys y cyhoedd / cymorthfeydd sydd o fewn cyrraedd i ymchwilwyr
- Grwpiau seilwaith cynnwys y cyhoedd
- Cyfadrannau lleyg

## Gwobr

- Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth
- Cefnogaeth gan gymheiriaid
- Ad-dalu treuliau a/neu archebu teithio ac ati
- Cynnig o hyd at £20 yr awr neu docyn rhodd/ tocin/ bancio amser ar gyfer cymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd (amser i'w bennu)

## Categori Coch

### Gwybodaeth, profiad ac ymrwymiad amser aelodau'r cyhoedd

- Tystiolaeth o brofiad a hyfforddiant mewn cynnwys y cyhoedd yn ogystal ag arbenigedd neu brofiad penodol, fel cadeirio neu adolygu dogfennau ar gyfer cais am gyllid ymchwil
- Mae galw am ymrwymiad clir o'u hamser sy'n cynnwys amser paratoi, fel darllen dogfennau
- Mae galw am ymrwymiad i gyfrinachedd, 'Cytundeb Cyfle' a 'Chod Ymddygiad' neu 'Siarter' o bosibl
- Mynychu cyfarfodydd, skype neu delegynhadledd
- Yn llai tebygol y bydd ymchwilwyr yn trefnu lleoliad ac amser sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall

### Engbreiffiau

- Llywodraethu cynnwys y cyhoedd, datblygu strategaeth a pholisi
- Aelod o fwrdd
- Aelod o grŵp rheoli
- Aelod o banel adolygu
- Aelod o banel cyfweld
- Datblygu a thraddodi cyflwyniad
- Hwyluso hyfforddiant cynnwys y cyhoedd

### Gwobr

- Cyfle i gael hyfforddiant a chymorth
- Cefnogaeth gan gymheiriaid
- Hyfforddiant sy'n benodol i'r cyfle, os oes angen
- Cymorth ysgrifenyddol o bosibl
- Ad-dalu treuliau a/neu archebu teithio ac ati
- Cynnig o hyd at £20 yr awr am gymryd rhan fel aelod o'r cyhoedd, gan gynnwys amser paratoi (yr amser i'w bennu)